



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

<b><u>Aelodau:</u></b>	Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (CHTh) Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG) Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) Ms Samantha Gainard, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio (CGC) Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
<b><u>Hefyd yn Bresennol:</u></b>	Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H) Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR) Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu, SCHTh (ALP) Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (MMS)
<b><u>Yn Arsylwi:</u></b>	Mr John Davies, Aelod o'r Cyhoedd
<b><u>Ymddiheuriadau:</u></b>	Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau (DGHTh) Dirprwy Brif Gwnstabl, Carl Langley (DBG) Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James (PGC) Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)

CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 19/08/2015		
Rhif Cam Gweithredu	Crynodeb	Cynnydd:
<b>PAB 245</b>	<b>SCHTh i nodi cynrychiolwyr ar gyfer rhoi mynediad iddynt at Qlikview</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 246</b>	<b>SCHTh i anfon rhestr o wybodaeth reoli ofynnol at yr ASP</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 247</b>	<b>GL i roi data i SCHTh mewn perthynas â phwyntiau cyfeirio neu wreiddiau cwynion</b>	<b>Cyfredol – ASP wrthi'n cofnodi'r man cychwyn</b>
<b>PAB 248</b>	<b>Y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus i gofnodi unrhyw ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd ar wahân i adroddiadau am anfodlonrwydd</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 249</b>	<b>SCHTh i drafod amserau ymweld priodol gydag Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 250</b>	<b>Cyflwyno proffil problemus mewn perthynas â</b>	<b>Ar waith</b>

	<b>Cham-drin Domestig i FAH mis Tachwedd</b>	
<b>PAB 251</b>	<b>Yr heddlu i ateb pam fod nifer yr honiadau yn erbyn gweithwyr ac ymchwiliadau camymddwyn yn uwch na heddluoedd eraill yng Nghymru</b>	<b>Cwblhawyd</b>
<b>PAB 252</b>	<b>DBG i atgoffa swyddogion am rôl yr heddlu o ran cynlluniau Bihafio neu Cewch Eich Banio ac Os Dwyn Cewch Eich Gwahardd (lle y mae cynlluniau o'r fath yn weithredol)</b>	<b>Cwblhawyd – byddai'n cael ei gynnwys yng ngweithdai TPB mis Hydref</b>

Agorodd y CHTH y cyfarfod trwy groesau aelod o'r cyhoedd a oedd yno'n arsylwi.

### **Cofnodion y Bwrdd Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 19 Awst 2015 a Materion yn Codi**

Rhoddodd y PG ddiweddariad mewn perthynas â'r dadansoddiad rheoli gwybodaeth O'r Stryd i'r Ddalfa (PAB 237). Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r CHTH ddiwedd Medi.

PAB 248 – Adroddodd HM-H fod y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus wedi adolygu pob achos perthnasol a sicrhodd eu bod wedi'u cofnodi'n briodol. Byddai ymholiadau'n cael eu cofnodi ar wahân i anfodlonrwydd.

PAB 249 –Byddai ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa'n cael eu hannog i gynyddu ymweliadau gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Yn dilyn un diwygiad, cytunwyd bod cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n gofnod gwir a chywir.

### **Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 1 – Atal ac Ymdrin â Digwyddiadau a Throseddau**

Cyflwynodd y PG yr adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau.

#### ***Rheoli Troseddwy'r yn Integredig (IOM)***

Holodd SR pa un ai a oedd nifer yr arestiadau yn cynnwys aelodau carfan a oedd wedi'u carcharu ar hyn o bryd. Cytunodd y PG i adolygu'r ffigurau a chadarnhau hyn â SCHTH.

#### **Cam Gweithredu: Yr Heddlu i egluro pa un ai a yw data IOM yn cynnwys aelodau sydd yn y carchar ar hyn o bryd**

Holodd SR os oedd yr arbedion cost a ddangoswyd yn adlewyrchiad o'r gostyngiad yn nifer y troseddau neu ddifrifoldeb y troseddau. Roedd y PG yn ystyried bod y ddau'n ffactorau cyfrannol. Gofynnodd y CHTh am gael gweld cost lawn y cynllun IOM.

**Cam Gweithredu: Cyflwyno costau'r cynllun IOM (gan gynnwys eiddo, dadansoddydd a chost i asiantaethau eraill) yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Hydref**

Holodd SR pa un ai a oedd yr egwyddorion a weithredir o ran gweithio mewn partneriaeth wedi'u rhannu ar draws meysydd gwaith eraill. Dywedodd y PG bod dysgu wedi'i drosglwyddo a'i ddatblygu o reoli troseddwr rhyw a pheryglus i'r cynllun IOM. Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd dadansoddiad o'r rhai sy'n cwblhau'r cynllun wedi'i orffen, yn arbennig, sawl un oedd wedi aildroseddu ar 6, 12 a 23 mis a sawl un oedd wedi dod o hyd i waith. Cytunodd y PG i roi ymateb ymhen amser.

**Cam Gweithredu: Adrodd am ddata sy'n ymwneud ag unigolion sy'n gadael y cynllun IOM yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref, gan gynnwys cyfraddau aildroseddu a chyflogaeth ar 6, 12 a 24 mis.**

***Olrhain Fy Nhrosedd***

Mynegodd y PG ei rwystredigaeth â'r oedi o ran derbyn y feddalwedd o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd tri heddlu'n rhedeg y feddalwedd ar hyn o bryd. Nodwydd y byddai HDP yn medru lansio'r feddalwedd o fewn 4 wythnos ar ôl ei derbyn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Holodd y CHTh pa gyfleuster riportio ar-lein sydd ar gael ar hyn o bryd. Dywedodd y PG y gall aelodau o'r cyhoedd riportio trosedd drwy'r wefan, a fyddai'n anfon e-bost yn uniongyrchol at Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phoblogi'r system drosedd yn awtomatig. Soniodd y CHTh am y feddalwedd Facewatch a oedd yn caniatáu uwchlwytho ffilm teledu cylch cyfyng. Cytunwyd y byddai cyflwyniad yn cael ei roi mewn perthynas â throseddau ar-lein mewn cyfarfod o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: Rhoi cyflwyniad mewn perthynas â throseddau ar-lein yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Tachwedd**

***Diweddariad ynghylch Plismona'r Ffyrdd***

Holodd SR pa feini prawf llwyddiant oedd yn cael eu defnyddio er mwyn gwerthuso llwyddiant ymgyrchoedd atal. Dywedodd y PG bod cyfweiliadau'n cael eu cynnal â defnyddwyr â chyfryngau perthnasol yn ogystal ag adolygu lleoliad gweithgareddau atal penodol. Cafwyd trafodaeth ynghylch data sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a oedd yn ystyried damweiniau fesul 1000 cilomedr a dosbarth ffyrdd.

***Datrysiadau Cymunedol***

Daeth i'r amlwg bod nifer y gwarediadau cyfiawnder sy'n rhybuddion wedi gostwng o 17% yn 2013-14 y 7% yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y PG yn ystyried bod hyn yn

ymwneud â'r defnydd mwy targedig o rybuddion. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â dadansoddi Datrysiadau Cymunedol yn ôl math ac ehangu'r "ddewislen" datrysiadau. Cytunwyd bod rhoi adroddiad llawn yng nghyfarfod mis nesaf yn gam gweithredu sy'n aros. Dywedodd ALP bod cynllun dargyfeirio rhag alcohol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o lansio fis Ebrill 2016. Cytunwyd y byddai SCHTh yn adolygu'r ymgynghoriad blaenorol ar ganlyniadau datrysiadau cymunedol er mwyn cefnogi ehangu canlyniadau datrysiadau cymunedol trwy gynlluniau dargyfeiriol wedi'u comisiynu.

### **Cam Gweithredu: SCHTh i adolygu'r ddewislen datrysiadau cymunedol mewn perthynas â gwasanaethau wedi'u comisiynu**

Nododd y CHTh y byddai'n ddefnyddiol olrhain nifer yr unigolion sy'n derbyn datrysiad cymunedol sy'n cael eu harestio'n ddiweddarach am drosodd arall.

Nodwyd bod diweddariad ynghylch y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) i'w gyflwyno yn y cyfarfod ond nid oedd ar gael. Cytunwyd y byddai'n cael ei ddarparu yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ddiwedd Hydref.

### **Cam Gweithredu: Cyflwyno diweddariad MASH yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref**

### **Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar flaenoriaeth 1**

Cyflwynodd y CC yr adroddiad, gan dynnu sylw at y prif elfennau. Nododd y PG bod estyn y cynnig o lefydd ar yr hyfforddiant cyfryngu i gynrychiolwyr o'r Tymoedd Plismona Bro'n werthfawr iawn.

Holodd y CHTh pa un ai a oedd gwerth cyfartalog yn gysylltiedig â throeddau. Dywedodd y CC bod metrig Priso'r Swyddfa Gartref ar Sail Gweithgarwch yn hen arf ond yn arf defnyddiol. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol diweddarau'r cyfrifiadau er mwyn asesu gwerth ariannol cyfryngu o ran adnoddau a arbedwyd.

### **Cam Gweithredu: Adnewyddu Priso sy'n Seiliedig ar Weithgarwch**

Nododd y CC yr angen i ystyried dyfodol cynlluniau atal a dargyfeirio ieuenctid o ganlyniad i ostyngiadau yng nghyllideb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Dywedodd y CHTh y byddai troeddau ieuenctid yn cael eu hystyried gan SCHTh yn ei dro.

Dywedodd y PG bod llawer iawn o waith da'n cael ei gyflawni. Nodwyd y byddai angen i'r Heddlu ystyried effaith comisiynu ar gyllideb HDP wrth ymgymryd â blaengynllunio cyllideb.

## **Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh**

Cyflwynodd SR yr adroddiad i'r Bwrdd. Roedd SCHTh wedi paratoi cwestiynau cyn y cyfarfod a oedd wedi'u dosbarthu i'r Heddlu. Yn y cyfarfod, atebodd yr Heddlu'r cwestiynau hynny a byddai'r Adroddiad Perfformio'n cael ei ddiweddarau ag ymatebion yr Heddlu.

Nododd y CHTh bod HDP yn adroddwr twyll cymharol uchel, sef y 12<sup>fed</sup> fesul 1,000 pen o'r boblogaeth. Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod HDP yn ystyried yr adborth a dderbynnir yn adroddiadau Action Fraud ac yn bwydo gwybodaeth briodol yn ôl i'r cyhoedd. Dywedodd y CC bod gwybodaeth yn cael ei ryddhau drwy Twitter, fodd bynnag, daeth i'r amlwg nad oes gwasanaeth gwybodaeth fanwl lleol ar gael ar hyn o bryd. Sicrhaodd y PG bod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gweithgarwch dadansoddi galw. Anogodd y CHTh y dylid ymchwilio i wasanaeth gwybodaeth cyhoeddus. Nododd y CHTh ei fod yn bwriadu cyhoeddi arolygon mewn perthynas â throseddau busnes yn y dyfodol agos.

### **Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ystyried pa ddata fewn yr adroddiad Action Fraud diweddaraf y gellir ei rannu â'r cyhoedd ac ymchwilio i'r posibilrwydd ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth am dwyll lleol**

Cafwyd trafodaeth am Adroddiadau Gweithgarwch Amheus (AGH) a pha un ai a ellir symud mwy o adroddiadau ymlaen i ymchwiliad pe bai adnoddau ychwanegol yn cael eu rhoi i'r adran. Dywedodd y PG bod angen dadansoddi pellach cyn gwneud penderfyniad.

### **Cam Gweithredu: Yr Heddlu i gynnal dadansoddiad o lefelau ymchwilio AGH erbyn diwedd Hydref**

Holodd y CHTh pa gyfran o droseddwr mewn achosion secstio sy'n oedolion, ac o'r rheiny sy'n oedolion, beth oedd eu hoed. Cytunwyd y byddai proffil yn cael ei lunio er mwyn ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### **Cam Gweithredu: Cyflwyno proffil o achosion secstio yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref**

Dywedodd y CGC bod adolygiad llawn o Hysbysiadau Gwybodaeth yr Heddlu'n cael ei gyflawni a byddai ar gael ym mis Tachwedd. Gwnaed Dyfarniad Uchel Lys ar gyfer gwaredu ar Hysbysiadau Gwybodaeth yr Heddlu ar ôl 14 mis er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau Hawliau Dynol.

### **Cam Gweithredu: Cyflwyno adolygiad llawn o'r broses Hysbysiad Gwybodaeth yr Heddlu yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Tachwedd**

Trafodwyd cynigion ariannu yng ngoleuni'r dyddiad cau sydd ar ddod ar gyfer mynegiannau o ddiddordeb ar gyfer y Gronfa Arloesedd. Cytunwyd y byddai Seiberdroseddu'n cael ei ystyried fel prosiect ar gyfer cyflwyno cynnig. Anogodd y PSA staff yr Heddlu i drafod unrhyw gynigion ariannu posibl â SCHTh cyn eu cyflwyno.

## **Cam Gweithredu: Y Rheolwr Ariannu Allanol i drafod cynigion Arloesedd â'r PG cyn cyflwyno Mynegiannau o Ddiddordeb ar 18 Medi**

## **Cam Gweithredu: Prif Swyddogion i gyflwyno neges y dylid trafod syniadau a chynigion ariannu â'r Rheolwr Ariannu Allanol cyn eu cyflwyno**

### **Cwestiynau o Gofnodion y Grŵp Prif Swyddogion**

Holodd y CHTH pa un ai a oedd diweddariad ynglŷn â'r System Rheoli Galw ar gael. Cadarnhawyd bod SCHTh wedi cael mynediad, fodd bynnag, nid oedd dadansoddiad wedi'i gynnal eto.

Gofynnodd SR am wybodaeth bellach ar yr ymchwil a gyflawnwyd gan Brifysgol Cymru.

### **Cam Gweithredu: Rhannu manylion pellach mewn perthynas ag ymchwil Prifysgol Cymru â SCHTh**

Holodd y PSA am effaith y swyddi gwag yr adroddwyd amdanynt o fewn yr Uned Cefnogaeth Arfog. Cytunwyd y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei darparu. Dywedodd y PG y byddai'r Uned Cefnogaeth Arfog yn cael ei hystyried yn ystod trafodaethau i ddod â Heddluoedd eraill mewn perthynas â chydweithio.

### **Cam Gweithredu: Rhannu gwybodaeth bellach mewn perthynas â staffio'r Uned Gefnogaeth Arfog â'r PSA**

Holodd y CHTH am statws yr Uned Cefnogaeth Wyddonol. Adroddwyd bod yr Uned wedi'i staffio'n llawn ond roedd y gwaith yn fwy nag y mae'r sefydliad yn caniatáu. Sicrhodd y PG bod cydweithio â Heddluoedd ar gyfer darparu cefnogaeth wyddonol dal yn destun ymchwiliad. Anogodd y CHTH y dylid cyflymu hyn. Cytunwyd y byddai'r PG a'r CHTH yn trafod y mater ar ôl y cyfarfod.

<b>CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 17/09/2015</b>		
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>I'w symud yn ei flaen gan:</b>
<b>PAB 253</b>	<b>Yr Heddlu i egluro pa un ai a yw data IOM yn cynnwys aelodau sydd yn y carchar ar hyn o bryd</b>	<b>Yr Heddlu</b>
<b>PAB 254</b>	<b>Cyflwyno costau'r cynllun IOM (gan gynnwys eiddo, dadansoddydd a chost i asiantaethau eraill) yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Hydref</b>	<b>CC</b>
<b>PAB 255</b>	<b>Adrodd am ddata sy'n ymwneud ag unigolion sy'n gadael y cynllun IOM yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref, gan</b>	<b>Yr Heddlu</b>

	<b>gynnwys cyfraddau aildroseddu a chyflogaeth ar 6, 12 a 24 mis.</b>	
<b>PAB 256</b>	<b>Rhoi cyflwyniad mewn perthynas â throsteddau ar-lein yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu fis Tachwedd</b>	<b>Yr Heddlu</b>
<b>PAB 257</b>	<b>SCHTh i adolygu'r ddewislen datrysiadau cymunedol mewn perthynas â gwasanaethau wedi'u comisiynu</b>	<b>SCHTh</b>
<b>PAB 258</b>	<b>Cyflwyno diweddariad MASH yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref</b>	<b>Yr Heddlu</b>
<b>PAB 259</b>	<b>Adnewyddu Prasio sy'n Seiliedig ar Weithgarwch</b>	<b>CC</b>
<b>PAB 260</b>	<b>Yr Heddlu i ystyried pa ddata fewn yr adroddiad Action Fraud diweddaraf y gellir ei rannu â'r cyhoedd ac ymchwilio i'r posibilrwydd ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth am dwyll lleol</b>	<b>Yr Heddlu</b>
<b>PAB 261</b>	<b>Yr Heddlu i gynnal dadansoddiad o lefelau ymchwilio AGH erbyn diwedd Hydref</b>	<b>Yr Heddlu</b>
<b>PAB 262</b>	<b>Cyflwyno proffil o achosion secstio yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Hydref</b>	<b>Yr Heddlu</b>
<b>PAB 263</b>	<b>Cyflwyno adolygiad llawn o'r broses Hysbysiad Gwybodaeth yr Heddlu yng nghyfarfod Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym mis Tachwedd</b>	<b>Yr Heddlu</b>
<b>PAB 264</b>	<b>Y Rheolwr Ariannu Allanol i drafod cynigion Arloesedd â'r PG cyn cyflwyno Mynegiannau o Ddiddordeb ar 18 Medi</b>	<b>JW / PG</b>
<b>PAB 265</b>	<b>Prif Swyddogion i gyflwyno neges y dylid trafod syniadau a chynigion ariannu â'r Rheolwr Ariannu Allanol cyn eu cyflwyno</b>	<b>Prif Swyddogion</b>
<b>PAB 266</b>	<b>Rhannu manylion pellach mewn perthynas ag ymchwil Prifysgol Cymru â SCHTh</b>	<b>Yr Heddlu</b>
<b>PAB 267</b>	<b>Rhannu gwybodaeth bellach mewn perthynas â staffio'r Uned Gefnogaeth Arfog â'r PSA</b>	<b>CC</b>